| Ymyrraeth | Teithio Cynaliadwy | | |
|---|---|---|---|
| Arwain | Ceri Doyle / Craig Lane | Cyfnod Adrodd | Ch1 2022-23 |

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
| Oren | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd |
| Coch | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

**CAM 1: BGC i ddod yn hyrwyddwyr Teithio Cynaliadwy:** Cafodd Siarter Teithio Cynaliadwy Gwent ei lansio ym mis Tachwedd 2020. Mae 23 o sefydliadau wedi ymuno â'r siarter hyd yn hyn. Yn ddiweddar, mae partneriaid wedi diweddaru eu cynnydd ar yr ymrwymiadau, ac mae hyn yn cael ei goladu ar hyn o bryd.

**CAM 2: Creu amgylchedd y bydd trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn flaenoriaeth ynddo:** Parhau i archwilio dichonolrwydd llogi beics ar y stryd gyda Trafnidiaeth Cymru. Bellach mae goleuadau a meinciau yn cael eu gosod ar hyd llwybr caer y Gaer gan cwblhau'r prosiect hwn. Mae'gosod wyneb newydd ar hyd adran Malpas/Betws llwybr tynnu'r gamlas hefyd wedi'i gwblhau, gyda phrosiectau pellach i wella croesfannau yn cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith hwn a gwella'r llwybr cyffredinol. Mae'r Bont Teithio Llesol yn Devon Place hefyd ar y trywydd iawn i'w chwblhau ac i agor tua diwedd 2022. Mae prosiect Strydoedd Ysgol Casnewydd yn bwrw ymlaen gyda sesiynau ymgysylltu, ymgynghori a chasglu gwybodaeth wedi eu cynnal mewn ysgolion yn ystod tymor yr haf. Mae diwrnodau prawf ar gyfer gweithredu'r stryd ddi-draffig ar gyfer pob ysgol wedi'u trefnu ar gyfer mis Hydref. Cafodd Map Rhwydwaith Teithio Llesol Casnewydd ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar ôl hynny. Gwaith i sicrhau bod modd i'r map gael ei weld gan y cyhoedd a chynlluniau ar gyfer gwaith yn y dyfodol i lwybrau i'w cynnwys yn y map yn y dyfodol yn parhau.

**CAM 3: Annog defnyddio ULEV:** Yn 2021/2022 gosododd CDC 23 bae gwefru newydd ar y briffordd mewn ardaloedd preswyl lle nad oes gan bobl barcio oddi ar y stryd i osod eu gwefrydd eu hunain ac nad ydynt eisoes o fewn taith gerdded pum munud i wefrydd sydd ar gael i'r cyhoedd. Gan weithio gyda P-RC mae 20 arall yn cael eu gosod mewn canolfannau cymunedol ar hyn o bryd ac mae CDC wedi gwneud cais am gyllid ar gyfer 20 bae arall a fydd yn cael eu cwblhau yn 2022/23.

| Prif Risgiau / Rhwystrau | Statws | Camau Lliniarol |
|---|---|---|
| *Peidio â defnyddio'r cyfleoedd sy'n deillio o gomisiwn yr M4.* | Uchel | *Mae cynrychiolwyr SEWTC yn eistedd ar grŵp Teithio Cynaliadwy'r BGC i sicrhau bod y BGC yn cymryd rhan lawn yn y broses hon.* |
| *Diffyg cyllid parhaus ar gyfer ymyriadau teithio llesol mewn ysgolion.* | Canolig | *Derbyniwyd £203k yn 2021-22 ar gyfer y cynllun strydoedd di-draffig ger ysgolion.* |
| *Nid yw'r cynllun llogi beiciau ar y stryd yn mynd yn ei flaen.* | Canolig | *Cais am gyllid yn barod i'w gyflwyno. I'w gyflwyno pan fydd y cylch ariannu nesaf ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.* |

| Mesurau Perfformiad | | Amserlen | | Targed | Gwirioneddol | COG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam 1: Siarter Teithio | Sefydliadau sydd wedi cofrestru ar draws Gwent | Tach 2021 | | 15 | 23 | Gwyrdd |
| Cam 2: Teithio Llesol | % y cynnydd mewn teithiau o gyfrifon teithio llesol ar lwybrau teithio llesol o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer pob chwarter | 2021-22 | Year | 25% | 40% | Gwyrdd |
| | | 2022-23 | Ch1 | | | |
| | | | Ch2 | | | |
| | | | Ch3 | | | |
| | | | Ch4 | | | |
| | | | Year | | | |
| Cam 3: ULEV | Nifer y bysus ULE ar waith | Rhag 2022 | | 30 | 33 | Gwyrdd |
| | Pwyntiau gwefru wedi'u gosod | Mawrth 2021 | | 40 | 88 | Gwyrdd |

## Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

***CAM 1**: Bydd holiadur staff yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Canlyniadau Ymrwymiadau Siarter wedi'u diweddaru i'w rhannu.*

***CAM 2:** Peilot ar gyfer prosiect strydoedd ysgol di-draffig.*

***CAM 3:** Aros am ganlyniadau'r cais i'r Llywodraeth Ganolog, drwy OZEV, am osod 20 safle arall ar y stryd y flwyddyn nesaf, gyda'r arian cyfatebol yn dod drwy ULEV.*